



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council



Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Nodiadau Canllaw y Gwasanaeth Profedigaeth ar Feddi a Chofebion

PRYNU BEDD

Wrth brynu bedd, mae’n hanfodol deall nad ydych yn prynu tir, ac mae perchnogaeth y tir yn parhau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Yr hyn a gewch yw Hawliau Claddu Unigryw ar gyfer bedd, sy’n ddilys am gyfnod nad yw’n hwy na 99 mlynedd, fel y’i rhoddwyd mewn dogfen gyfreithiol a elwir yn Weithred Grant.

Mae’r Weithred yn rhoi’r hawliau canlynol i chi:



- Claddu yn y bedd neu’r llain (yn amodol ar le sydd ar gael, gan gynnwys gweddillion amlosgedig)
- Awdurdodiad ar gyfer claddedigaethau ychwanegol yn y bedd (os oes digon o le) neu ar gyfer claddu gweddillion amlosgedig.
- Caniatâd i wneud cais am hawlen i osod cofeb ar fedd neu i arysgrif ychwanegol gael ei hychwanegu.

Mae Cyfraith Claddu (Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977) yn nodi na chaniateir unrhyw gladdedigaeth na lleoliad coffa heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog y Weithred yn ystod y cyfnod Hawliau Neilltuol, ac eithrio claddedigaeth y perchennog. Rhaid i’r Weithred gael ei throsglwyddo’n gyfreithiol os bydd rhywun arall yn dymuno trefnu claddedigaeth bellach yn y bedd. Cadwch eich Gweithred yn ddiogel gan ei bod yn rhan o’ch ystâd.

Mae’n bwysig eich bod yn hysbysu’r adran gwasanaethau profedigaeth os byddwch yn newid cyfeiriad fel y gallwn ddiweddarau ein cofnodion gyda’r wybodaeth gyswllt ddiweddaraf.

MATH O FEDDAU

Bedd Traddodiadol	Llain Amlosgi
Mae’r bedd hwn yn caniatáu cais am garreg fedd cofeb gyda chyrbiau ac amgylchoedd (ffi yn ofynnol). Ni chaniateir plannu coed neu lwyni ar y bedd. Perchennog y bedd sy’n gyfrifol am gynnal a chadw’r gofeb, tra bydd staff y fynwent yn gofalu am y glaswelltir. Sylwch fod yn rhaid i Saer maen cymeradwy sydd wedi’i gofrestru gyda BRAMM osod pob cofeb.	Mae’r beddau hyn yn caniatáu ichi wneud cais am hawlen (ffi gofynnol) i osod carreg fedd cofeb ar ofod bedd. Ni chaniateir cyrbau, ffensys neu amgylchoedd ar y bedd a byddant yn cael eu symud heb rybudd pellach. Ni chaniateir plannu coed na llwyni ar y bedd. Cyfrifoldeb perchennog y bedd yw cynnal a chadw’r gofeb, a bydd staff y fynwent yn gofalu am y glaswelltir. Mae lleiniau amlosgi yn llai ac wedi’u dynodi ar gyfer gweddillion amlosgedig yn unig. Sylwch fod yn rhaid i Saer maen cymeradwy sydd wedi’i gofrestru gyda BRAMM osod pob cofeb.



Nid ydym yn caniatáu unrhyw ffensys, graean, addurniadau ac ati anawdurdodedig ar ein beddau a bydd yr eitemau hyn yn cael eu symud heb rybudd.

Byddwch yn ymwybodol y gall pob bedd newydd gael ei atgyfnerthu gan bridd, gan achosi iddynt suddo. Mae hon yn broses naturiol, a bydd staff ein mynwentydd yn cynnal lefelau beddau drwy ychwanegu pridd yn ôl yr angen. Yn ogystal, wrth gloddio beddau, mae angen gosod y pridd dros dro ar y bedd cyfagos, a all, ar adegau, fod yn fan gorffwys i'ch anwylyd. Fodd bynnag, ar ôl i'r gwasanaeth claddu gael ei gwblhau, rydym yn defnyddio'r un pridd yn brydlon i ail-lenwi'r bedd, gan leihau unrhyw anghyfleustra posibl. Yna mae'r bedd a ddaliodd y pridd am gyfnod byr yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol. Deallwn y gallai'r broses hon, yn ddealladwy, achosi trallod i deuluoedd, ond mae'n ofyniad anochel ar gyfer gweithrediadau llyfn a pharchus ein mynwent.

Oherwydd prinder lleoedd claddu, ni all rhai o'n mynwentydd gynnwys beddau newydd. Mewn achosion o'r fath, yr unig opsiwn yw bedd wedi'i 'ailddefnyddio'.

Mae bedd 'ail-ddefnyddio' yn cyfeirio at un gyda dim ond un gladdedigaeth dros 70 mlynedd yn ôl, heb gofeb, ac sy'n dal i fod yn eiddo i'r Cyngor. Ni aflonyddir ar y gladdedigaeth wreiddiol yn ystod y cloddio, ond gall y dyfnder sy'n weddill uwchlaw'r gladdedigaeth honno gynnwys uchafswm o ddwy arch, ar yr amod bod digon o le.

Ym Mynwent Pant, lle mae dyfnder yn gyfyngedig, mae opsiwn ar gael ar gyfer un gladdedigaeth bridd ac yna siambr frics ar gyfer claddu arch. Am ffioedd cyfredol, ewch i'n gwefan www.merthyr.gov.uk.

COFEBION

TRWYDDED COFEB

Os prynwch yr Hawl Unigryw i Gladdu ar fedd o fewn ein mynwentydd, bydd gennych yr hawl i wneud cais i godi cofeb ar y bedd. Ni chaniateir cofebion ar feddau lle na phrynrir hawliau a chânt eu symud heb rybudd pellach.

Dim ond seiri maen sy'n gweithio i safonau diwydiant ac sydd wedi'u cofrestru gyda Chofrestr Seiri Coffa Achrededig Prydain (BRAMM) i weithio yn ein mynwentydd y byddwn ni'n eu caniatáu. Rhaid i gofebion hefyd gydymffurfio â'n rheoliadau. I gael arweiniad ewch i'n gwefan www.merthyr.gov.uk.

Sylwch na ellir gwneud unrhyw waith ar gofeb heb:

- Awdurdodiad y sawl sy'n dal yr Hawl Claddu ar y bedd.
- Eich saer maen yn cyflwyno ffurflen gais a ffi i'r cyngor.
- Trwydded yn cael ei rhoi gan y cyngor.

Ni ddylid gosod cofebion cyn y dyddiad gosod cynharaff er mwyn caniatáu digon o amser i'r tir setlo, gan sicrhau'r sefydlogrwydd mwyaf posibl. Mae pob cofeb yn gyfrifoldeb y perchennog sydd â Hawliau Claddu Unigryw, sy'n gyfrifol am eu cynnal a'u cadw. Rydym yn argymhell prynu yswiriant ar gyfer eich cofeb.

DIOGELWCH COFEBION

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, o dan Orchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, i reoli risgiau mynwentydd. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae pob cofeb yn cael ei harchwilio bob 5 mlynedd i sicrhau eu bod yn sefydlog. Os bydd archwiliad yn ystyried bod cofeb yn beryglus, rhaid inni ei gwneud yn ddiogel. Sylwch nad ydym yn gwneud atgyweiriadau, felly gallai hyn olygu gosod carreg fedd yn fflat.

Bydd perchnogion cofebion anniogel yn derbyn hysbysiadau ysgrifenedig at eu cyfeiriad hysbys diwethaf. Cyfrifoldeb y perchennog yw trefnu a thalu costau atgyweiriadau angenrheidiol gan saer maen coffa awdurdodedig. Rhowch wybod i'r Gwasanaethau Profedigaeth am unrhyw newid yn eich cyfeiriad.

COFEBION ANAWDURDODEDIG

Yn unol â Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cadw'r hawl i symud unrhyw gofeb anawdurdodedig o'n mynwentydd. Gall y cyngor hefyd symud unrhyw eitemau anawdurdodedig megis ffensys, cerrig man ac ati ar unrhyw adeg heb roi rhybudd pellach.

CYSYLLTU GYDA NI

Os ydych angen unrhyw wybodaeth pellach neu gyngor, cysylltwch:
Gwasanaeth Profedigaeth, Uned 20, Parc Diwydiannol Merthyr Tydfil,
CF48 4DR Rhif Ffôn: 01685 725000
E-bost: Bereavement.Services@merthyr.gov.uk